EQUITY bectu Musicians' Union WGGB THE WRITERS' UNION NUJ NATIONAL UNION OF JOURNALISTS

Eluned Morgan MS
Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
TRWY E-BOST

8 Awst 2024

Annwyl Brif Weinidog,

Llongyfarchiadau ar eich penodiad yn Brif Weinidog, sy'n cyd-fynd ag wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Wrth i bobl o bob rhan o Gymru ymgynnull ym Mhontypridd i ddathlu ein diwylliant a'r iaith Gymraeg, ysgrifennwn atoch fel Ffederasiwn Undebau Adloniant Cymru i fynegi ein pryderon sylweddol ynglŷn â dyfodol y celfyddydau, diwylliant, a'r cyfryngau o gwr i gwr yn ein cenedl. Cynrychiolwn ysgrifenwyr, cerddorion, perfformwyr, actorion, dawnswyr, newyddiadurwyr a gweithwyr proffesiynol cefn llwyfan a sgrin ein gwlad, a gwyddom o'n gwaith gyda'n haelodau bod yna fygythiadau difrifol iawn nid yn unig i swyddi proffesiynol yn y diwydiannau creadigol, ond hefyd i'r ddarpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd o bob math ledled Cymru.

Rydych wedi addo gwrando ar y cyhoedd, ac i roi llais i bobl Cymru wrth osod yr agenda ar eich cyfer, a'ch bod am i'ch etholiad droi tudalen newydd, ac rydym yn mawr obeithio y bydd diwylliant a'r diwydiannau creadigol yn rhan o hynny. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn wynebu pwysau sylweddol, ond hoffem bwysleisio, ar yr un pryd ag y mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru hyd at 2030, bod diwylliant yng Nghymru a'n sefydliadau diwylliannol cenedlaethol o dan fygythiad gan amrywiaeth o amgylchiadau difrifol ar hyn o bryd.

Mae'r problemau hyn yn cynnwys toriadau sylweddol i gyllid gan lywodraeth genedlaethol a lleol, gan gynghorau'r celfyddydau (mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dioddef gostyngiad cyllidebol o tua 37 mewn termau real % ers 2010), Cyngor Llyfrau Cymru a chyrff eraill dros y 14 blynedd diwethaf. Mae effeithiau parhaus ac adferiad araf y pandemig Covid, prisiau ynni uchel a'r argyfwng costau byw ynghyd ag isadeiledd gwael, problemau gydag addysg gelfyddydol mewn ysgolion ac amodau gwaith gwael hefyd yn cael effaith negyddol iawn. Mae ein haelodau hefyd yn wynebu problemau gyda thechnoleg, megis ymddangosiad a datblygiad cyflym a defnydd o GA/AI. Gyda'i gilydd, mae'r amgylchiadau hyn yn peri heriau hollol newydd nid yn unig i weithwyr proffesiynol sefydledig a phrofiadol, ond hefyd i dalent iau sy'n dymuno cyfrannu at dirwedd greadigol Cymru yn y dyfodol.

Mae enghreifftiau penodol o broblemau i'n sector yn cynnwys diswyddiadau a chynigion i gael gwared ar y gerddorfa a'r corws llawn amser yn Opera Cenedlaethol Cymru, a chau Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Ifanc, sy'n golygu mai CBCDC fydd yr unig conservatoire yn y DU heb un rhaglen iau reolaidd; mwy na hanner gweithlu ffilm a theledu'r DU yn ddi-waith; costau

rhedeg uchel yn y canolfannau y mae perfformwyr yn dibynnu arnynt; cau Neuadd Dewi Sant ac o bosibl lleoliadau eraill fel Sefydliad y Glowyr Coed Duon; cau'r cylchgronau Cymreig Planet a New Welsh Review; trafferthion gyda chyllid ar gyfer gwefannau newyddion Cymraeg Golwg 360 a Corgi; gostyngiadau i gyllid S4C (gyda thoriadau dilynol i raglenni pwysig fel Pobol y Cwm); a rhewi ffi drwydded y BBC. Mae yna hefyd broblemau yn Llywodraeth Cymru yr ydym yn gobeithio y byddwch yn mynd i'r afael â nhw, megis y rhaniad artiffisial diweddar rhwng diwylliant (gan gynnwys trosolwg o Gyngor Celfyddydau Cymru) a'r sector creadigol (gan gynnwys Cymru Greadigol), a'r dryswch y mae hyn wedi'i achosi mewn perthynas â materion fel darlledu.

Mae ar genedl fodern, ffyniannus a blaengar, yn enwedig "Gwlad y Gân", angen mwy nag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sylfaenol yn unig – mae arni angen celf, diwylliant, creadigrwydd a chyfryngau am y gwerth y maen nhw'n ei gynnig i'r economi, addysg, ac i iechyd a lles pobl ledled Cymru. Mae hyn yn fater sydd o bwys i'r cyhoedd – arwyddodd miloedd o bobl deisebau i gefnogi sefydliadau fel Opera Cenedlaethol Cymru a CBCDC Ifanc. Cymru oedd un o'r gwledydd cyntaf i gymryd camau i ddiogelu buddiannau Cenedlaethau'r Dyfodol, ond mae'r sefyllfa bresennol yn bygwth mynediad cenedlaethau'r dyfodol at ddiwylliant a chyfryngau yn y wlad.

Mae ar Gymru angen strategaeth ar gyfer diwylliant a'r diwydiannau creadigol sy'n gwerthfawrogi ac yn amddiffyn ein sefydliadau cenedlaethol, sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo gweithwyr proffesiynol yn ogystal â thalentau newydd yn y sector, sy'n tanlinellu'r hawl i gyflog teg ac amodau gwaith ar gytundebau cyfunol yr undebau, ac sy'n canolbwyntio ar fuddsoddiad hirdymor ac amcanion cynaliadwy.

Hoffem gwrdd â chi ar frys i drafod y materion hyn ymhellach, ac archwilio atebion amgen a ffyrdd ymlaen ar gyfer rhai o'r heriau difrifol yma sy'n wynebu ein sector.

Yr eiddoch yn gywir



Simon Curtis
Cadeirydd, Ffederasiwn Undebau Adloniant Cymru
Swyddog Cymru a De Orllewin Lloegr - Equity
07798 750254
scurtis@equity.org.uk

ar ran
Carwyn Donovan, Swyddog Negodi, BECTU/Prospect
Andy Warnock, Trefnydd Rhanbarthol Undeb y Cerddorion, Cymru a De Orllewin Lloegr
David Nicholson, Aelod Cymru o Gyngor Gweithredol Cenedlaethol NUJ
Manon Eames, Cadeirydd Cymru, Urdd Ysgrifenwyr Prydain Fawr
Sian Gale, CULT Cymru/BECTU